# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD IAU, 19 EBRILL 2018**

**AT: YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD** A GYNHELIR YN **YSTAFELL GYFARFOD ADFYWIO, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AR **DYDD IAU, 26AIN EBRILL, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL. | |
| 2. | LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 19EG MAWRTH 2018. | 3 - 4 |
| 3. | Y TÂL SAFONOL AM OFAL PRESWYL GAN YR AWDURDOD LLEOL AM 2018-19. | 5 - 8 |


*Sylwer: - Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.*

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

## DYDD LLUN, 19EG MAWRTH, 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J. Tremlett [Aelod o’r Bwrdd Gweithredol]

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
Mr L. Walters - Uwch Rheolwr Cymorth Busnes Gofal Cymdeithasol
Mr R. Page - Rheolwr Cymorth Busnes Rhanbarthol
Mrs M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddfa’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 9.00 a.m. - 9.20 a.m.**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 8FED TACHWEDD 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, 2016 gan eu bod yn gywir.**

**3. Y TALIADAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR GYFER 2018/2019**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a fanylai ar lefel y taliadau arfaethedig ar gyfer gofal cartref a gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl eraill ar gyfer 2018–19. Roedd Atodiad 1 i'r adroddiad yn manylu ar y taliadau presennol ar gyfer 2017/18 a'r taliadau arfaethedig ar gyfer 2018/19.

Dywedodd yr Uwch-reolwr Cymorth Busnes y byddai'r rhan fwyaf o'r taliadau'n cael eu cynyddu'n unol â disgwyliadau cyllidebol yr Awdurdod, ac eithrio'r tâl Teleofal. Ni fyddai'r tâl Teleofal yn newid gan na all y tâl ar gyfer unrhyw wasanaeth fod yn fwy nag y mae'n ei gostio i'w ddarparu, a chan fod y gwasanaeth Teleofal yn newid yn sylweddol ar hyn o bryd, cyn gynted ag y byddai'r newid wedi'i gwblhau, byddai'r tâl yn cael ei adolygu eto ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

O ran Gofal Cartref a Gwasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl eraill, nodwyd bod Awdurdodau dal yn gallu dewis penderfynu p'un ai i godi tâl am wasanaethau ai peidio, faint i godi am wasanaethau, a pha wasanaethau y dylid codi tâl amdanynt. Roedd tâl mwyafswm o hyd y gallai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth ei dalu ac ar gyfer 2018/19 y tâl mwyafswm oedd £80 yr wythnos ac eithrio unrhyw daliadau yn lle costau byw dyddiol arferol megis prydau a golchi dillad. Y bwriad oedd parhau â'r tâl mwyafswm newydd fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Byddai angen ailasesu amgylchiadau ariannol defnyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl yn sgil newidiadau pensiwn a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Ebrill 2018. O dan y Ddeddf mae'r defnyddwyr gwasanaeth dal yn gorfod cael eu hysbysu am eu tâl, neu unrhyw newidiadau i'w

tâl cyn y gellir anfon anfoneb, ond bydd y tâl yn gallu cael ei gymhwyso ac yn cael ei gymhwyso o'r dyddiad y bydd yr amgylchiadau ariannol yn newid a/neu ddyddiad cyntaf y gwasanaeth. Felly, byddai canlyniad yr Ailasesiad Ariannol yn cael ei gymhwyso o 9 Ebrill, 2018, sef y dyddiad y daw newidiadau pensiwn Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn berthnasol.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ystyriwyd gofal seibiant yn wasanaeth tymor byr, ac yn unol â hynny, roedd gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedd yn cael gofal seibiant hawl i asesiad ariannol dan y rheolau codi tâl am wasanaethau dibreswyl. O ganlyniad, ni fydd defnyddwyr gwasanaeth yn talu mwy nag £80 yr wythnos am y gwasanaeth hwn, a bydd llawer yn talu llawer llai neu'n cael y gwasanaeth am ddim. Ar gyfer 2018/19 cynigiwyd codi cost lawn y lleoliad, gyda'r asesiad ariannol yn sicrhau bod neb yn talu mwy na'r hyn gallant ei fforddio. Bydd yr Asesiad Ariannol yn unol â'r Ddeddf, Rheoliadau, Côd Ymarfer ac yn destun tâl mwyafswm o £80 yr wythnos.

O ran gwasanaethau a ystyriwyd fel cost byw ddyddiol arferol, byddai'r taliadau hyn yn daliadau cyfradd unffurf a ddim yn destun asesiad ariannol, ac felly byddent yn cael eu codi yn ychwanegol at dâl prawf modd ar gyfer yr holl wasanaethau uchod. Mae'r gwasanaethau sydd o dan y categori hwn fel a ganlyn:-

- prydau twym gartref (Prydau ar Glud) ac mewn cyfleusterau dydd a phrydau wedi'u rhewi gartref (Prydau ar Glud) - £4.70 fesul pryd (cynnydd o 40c yn unol â phenderfyniad gan y Cyngor ar 23 Chwefror, 2016);
- golchi dillad £2.40 y llwyth (cynnydd o 5c)

Er mwyn helpu i gyrraedd y lefelau presennol o ran galw am wasanaethau

**PENDERFYNWYD**

**3.1 cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig o ran y taliadau am y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2018/19, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad; i ddod i rym o 9fed Ebrill 2018 ymlaen;**

**3.2 mai'r trothwyon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru fydd y trothwyon cyfalaf i'w defnyddio ar gyfer yr asesiad ariannol sy'n ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl;**

**3.3 cymhwyso'r tâl mwyafswm wythnosol newydd o £80 yr wythnos ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl ar gyfer Oedolion, sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, o 9fed Ebrill 2018 a bod y tâl mwyafswm yn dal i fod yn unol â chyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol wrth iddynt ddigwydd.**

_________________________________ ____________________
**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**

## DYDDIAD: 26 EBRILL, 2018

| Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol: | Y Portffolio: |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Jane Tremlett** | **Gofal Cymdeithasol a Iechyd** |

### Y TÂL SAFONOL AM OFAL PRESWYL GAN YR AWDURDOD LLEOL AM 2018-19

### YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cynyddu'r Tâl Safonol am ofal ar gyfer henoed yng nghartrefi gofal preswyl yr Awdurdod Lleol o £585.99 i £587.02 am wely arferol a o £791.48 i £800.30 am wely i breswylydd oedrannus llesg ei feddwl.

Bydd y cyfraddau newydd yn dod i rym ar 2 Gorffennaf, 2018 yn achos y preswylwyr hynny y mae'r Awdurdod hwn wedi eu rhoi yn ein Cartrefi Awdurdod Lleol ein hunain. O ran y preswylwyr hynny sydd wedi cael eu rhoi yn ein cartrefi gan Awdurdodau Lleol eraill, bydd y taliadau newydd i'w codi ar yr Awdurdodau hynny yn dod i rym ar 9 Ebrill, 2018.

### Y RHESYMAU:

Mae'n ofynnol i oedolion mewn llety preswyl gyfrannu at gost eu gofal. Os oes ganddynt adnoddau digonol, mae'n ofynnol iddynt dalu'r gost lawn am eu llety, sef y Tâl Safonol a gyfrifir yn flynyddol ar sail y gost lawn i'r Awdurdod o ddarparu'r llety.


| Y Gyfarwyddiaeth | Swyddi: | Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Cymunedau | | |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth:** Jonathan Morgan | Pennaeth Dros Dro, Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | jmorgan@sirgar.gov.uk **01267 228960** |
| **Awdur yr Adroddiad:** Andrea Thomas | Cyfrifydd y Grŵp | AndThomas@sirgar.gov.uk **01267 228742** |


## Declaration of Personal Interest (if any): None

## Dispensation Granted to Make Decision (if any): N/A

## DECISION MADE:

**Signed:**

EXECUTIVE BOARD MEMBER

| | |
|---|---|
| Recommendation of Officer adopted | YES / NO |
| Recommendation of the Officer was adopted **subject to the amendment(s) and reason(s) specified:** | |
| Reason(s) why the Officer's recommendation was **not adopted**: | |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# EXECUTIVE SUMMARY

## EXECUTIVE BOARD MEMBERS DECISION MEETING FOR SOCIAL CARE & HEALTH 26TH APRIL 2018

## LOCAL AUTHORITY RESIDENTIAL CARE STANDARD CHARGE FOR 2018-2019

The overall budgeted costs for running the Authority's residential homes together with the number of beds available and the occupancy levels are the determining factors in calculating the annual Standard Charge.

For 2018-2019 there has been no change in the number of Local Authority beds. Whilst staffing costs have increased these have been partly offset by a reduction in running expenses. As a result the charge for mainstream beds will increase by 0.17% and EMI beds by 1.11%.

**Recommendation**

- The Standard Charge for Local Authority Older People residential care homes be increased from £585.99 to £587.02 for Mainstream beds and from £791.48 to £800.30 for EMI beds.

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **No** |

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Jonathan Morgan Head of Homes and Safer Communities**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **YES** | **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** |

**3. Finance**

The Standard Charge has been calculated on the basis of the full cost to the authority of providing the accommodation.

**5. Risk Management Issues**

As there continues to be a significant cost differential between the Local Authority and the Private Sector this could lead to a shift in placements from Local Authority homes into the Private Sector.

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below** |
| **Signed: Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities** |

**1.Local Member(s)** N/A

**2.Community / Town Council** N/A

**3.Relevant Partners** N/A

**4.Staff Side Representatives and other Organisations** N/A

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales